# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 21AIN HYDREF, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Courtney Leigh Jones**

**Courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

**courtneyleighjones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 13 Hydref 2025)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Wendy Cleaver
Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
John Brynmor Hughes

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Coun Robert Williams | Barmouth Town Council |
| Dr John Smith | Meirionnydd Yacht Club |
| Mark James | Royal National Lifeboat Insitution |
| Ashley Field | Three Peaks Yacht Race |
| Robert Aeron Williams | Barmouth Resort Improvement Group |

### Sylwedyddion:

Councillor Matthew Harris
Ian Sadler
Cynghorydd Brian Woolley
Peter Appleton
Desmond George
June Jones

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 4 - 12

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**6. CAIS I WERTHU CYNNYRCH O GEI HARBWR ABERMAW**

**7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar y 24ain o Fawrth, 2026.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| **Dyddiad:** | 21 Hydref 2025 |
| **Awdur:** | Uwch Swyddog Harbwr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Rheoli Gwasanaeth |

## 1 CEFNDIR

1.1 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelwch a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion rheoli sy'n gysylltiedig â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION RHEOLI GWASANAETH

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaeth.

### i) <u>Data Perfformiad</u>

2.2 Caiff y data isod ei gasglu fel rhan o drefniadau monitro a rheoli perfformiad y Gwasanaeth Morwrol.

| | **2023/4** | **2024/5** | **2025/6** |
|---|---|---|---|
| **Cytundebau Angori** | | | |
| Porthmadog | 106 | 109 | 106 |
| Abermaw | 71 | 78 | 81 |
| Aberdyfi | 73 | 79 | 83 |

2.3 Fel y gwelir, mae'r ffigyrau ar gyfer cytundebau angori yn nhymor 2025 yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd cynt, ac er bod amrywiadau rhwng harbyrau unigol, mae'r ffigyrau cyffredinol wedi aros yn gyson, sy'n gadarnhaol.

2.4 Bu cynnydd o 10% yn nifer y cychod pŵer a gofrestrwyd gyda Chyngor Gwynedd y tymor hwn o gymharu ag y llynedd, yn codi o 2,141 i 2,362.

2.5 Mae'r Gwasanaeth yn gofyn yn garedig i holl gyflenwyr/deiliaid yr angorfeydd ddarparu manylion yr holl gychod a chwsmeriaid i swyddfa'r harbwr cyn gynted â phosib.

2.6 Mae'r gwasanaeth hefyd yn casglu data ar lefelau boddhad defnyddwyr yr Harbwr:

| | 2023/4 | 2024/5 | 2025/6 |
|---|---|---|---|
| **Boddhad Cwsmer** | | | |
| Rhagorol | 40% | 60% | 63% |
| Da iawn | 30% | 24% | 25% |
| Boddhaol | 20% | 16% | 6% |
| Gwael | 10% | 0% | 2% |
| Gwael Iawn | 0% | 0% | 0% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 4% |

2.6.1 Mae'r ffigyrau hyn yn dangos y cynnydd mewn adborth 'positif' a dderbyniwyd yn ein harbyrau, ynghyd â'r ymdrechion a wnaed gan yr adran i wella'r profiad i gwsmeriaid ac ymwelwyr ymhellach.

**2.6.2 <u>Adborth a gafwyd am Harbwr Abermaw:</u>**

**Ymatebion positif:**

"Mae staff yr harbwr yn gymwynasgar, yn wybodus ac yn groesawgar iawn, ac yn aml yn mynd y tu hwnt i'w dyletswydd i ofalu am gwsmeriaid".
"Mae'r staff 'ifanc' (Kane a Lois) yn glod i'r Cyngor".
"Gwasanaeth cwsmer rhagorol a staff cyfeillgar iawn.
"Mae'r harbwr bob amser yn lân ac wedi'i amgylchynu gan olygfeydd gwych – caru'r coed palmwydd".
Mae'r angorfeydd newydd i ymwelwyr yn ardderchog ac yn ei gwneud yn haws a mwy diogel i glymu fy nghwch - diolch".

**Ymatebion negyddol:**
"Methu cael mynediad i'r toiled anabl ar yr harbwr".
"Mae wir angen carthu'r harbwr!"
"Rhy brysur, gormod o bobl a dim lle i barcio".
"Biniau yn gorlifo – angen eu gwagio yn amlach".
"Pryd mae'r pontŵn yn dod yn ôl! Mae'n gymaint o drueni".

Rydym yn croesawu ac yn cydnabod pob adborth a gawn am ein harbyrau, a byddwn yn parhau i drafod unrhyw faterion neu bryderon a godwyd er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach.

2.7 Mae'r **Cod Diogelwch Morol a Chyfleusterau Porthladd (PMSC)** yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch morol porthladdoedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio, caiff ein harbyrau eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwr allanol. Mae'n bleser gennym gadarnhau penodiad diweddar Mr Owen Morgan, Rheolwr Harbwr Cyngor Ceredigion, fel ein 'Person Dynodedig' newydd. Bydd Mr Morgan yn cynnal yr archwiliad nesaf yn ystod misoedd y Gaeaf a bydd yn rhoi

arweiniad i ni i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion diweddaraf y PMSC. Yn dilyn yr archwiliad hwn bydd y gwasanaeth yn cyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r cod ar wefan gyhoeddus y Cygnor: www.gwynedd.llyw.cymru.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r PMSC, rydym yn cynnig cyfleodd hyfforddiant a datblygiad parhaus i'n staff morwrol. Rydym yn falch o gyhoeddi bod un aelod o staff yn ddiweddar wedi cwblhau'r 'Diploma Harbwrfeistr' tra bod aelod arall wedi dechrau'r cwrs 'UKHMA Harbour Master Certificate' diweddaraf – dymunwn bob llwyddiant iddynt gyda'u datblygiad proffesiynol.

2.8 Oherwydd natur eu gwaith, yn anffodus mae ein swyddogion weithiau'n profi ymddygiad difrïol, bygythiol ac ymosodol. Er mwyn sicrhau diogelwch staff a'r cyhoedd, mae swyddogion nawr yn gorfod gwisgo camerâu ar eu cyrff i roi gwarchodaeth iddynt ac i recordio unrhyw ddigwyddiadau.

2.9 MAIB (Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol): Rydym yn falch o gyhoeddi nad oes unrhyw ddigwyddiadau morwrol neu ddamweiniau wedi'u hadrodd i 'MAIB' hyd yn hyn eleni.

2.9.1 Mewn digwyddiad ym Mhwynt Penrhyn, gwelwyd Staff yr Harbwr yn mynychu a chynorthwyo'r gwasanaethau brys oherwydd bod tân ar gwch. Roedd y llong wedi'i storio ar dir uwchben y lefel dŵr uchel cymedrig, ond aeth y gwasanaeth yno i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

2.9.2 Yn ddiweddar, oherwydd glaw trwm, aeth llong oedd ar ochr wal yr Harbwr o dan y dŵr, gweithredodd Staff yr Harbwr yn gyflym unwaith eto gan roi cymorth i bwmpio'r dŵr allan o'r llong a defnyddio 'Oil Spill Booms' fel rhagofal. Fe arnofiodd y llong ar y llanw nesaf ac mae'n cael ei monitro.

**2.10 Trinity House GLA (Awdurdod Goleudai Cyffredinol)**

Un o brif flaenoriaethau'r gwasanaeth yw sicrhau mordwyo diogel i'r holl forwyr sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd. Fel 'LLA' (Awdurdod Goleudy Lleol) cofrestredig, rydym yn cynnal arolygon rheolaidd o sianel yr harbwr i sicrhau bod yr holl Gymhorthion Mordwyo Lleol wedi'u lleoli'n gywir ac yn gweithio'n iawn. Mae arolygon a chofnodion ar gyfer Cymhorthion Mordwyo yn cael eu huwch-lwytho i gronfa ddata Trinity House. Daeth yr adroddiad diweddaraf i'r casgliad bod 95.47% o Gymhorthion Mordwyo Cyngor Gwynedd ar gael, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ystyried mewn "Cyflwr Da".

3.0 **Adnoddau a Chyllideb**: Mae crynodeb o'r cyllidebau ar gyfer Harbwr Abermaw wedi'i gynnwys isod:

| BARMOUTH HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2025 to 31 March 2026 - August 2025 Review | | |
|---|---|---|---|
| | BUDGET / TARGETS FOR THE PERIOD 1/4/25 TO 31/3/26 | INCOME & EXPENDITURE FORECASTED 1/4/25 TO 31/3/26 | OVER (UNDER) |
| Employees | 80,337 | 84,282 | 3,945 |
| | | | |
| Buildings | 12,410 | 6,226 | (6,184) |
| | | | |
| Transport | 890 | 2,051 | 1,161 |
| | | | |
| Supplies & Services | 12,000 | 25,041 | 13,041 |
| | | | |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Expenditure** | **105,637** | **117,601** | **11,964** |
| | | | |
| Income | (47,590) | (54,993) | (7,403) |
| Contribution from Reserves Tow | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Total Net** | **58,047** | **62,608** | **4,561** |

3.1 **Materion Allweddol Eraill**

**3.1.1** Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi £3500 i brynu bowser a phibell olchi jet ar drelar. Mae'r staff wedi ymateb yn dda i'r offer, gan ei fod nawr yn golygu bod modd glanhau a chynnal a chadw ardaloedd yr harbwr a oedd yn anodd eu rheoli yn fwy effeithiol.

**3.1.2** Yn ystod y tywydd garw diweddar a ddaeth yn sgil Storm Amy, profodd yr ardal gyflymder gwynt niweidiol ac amodau môr mawr. Golchwyd Cymhorthydd Mordwyo rhif 2 (ochr y porthladd) i'r lan ar ôl difrod i'w gadwyn godi. Mae cynlluniau mewn lle i'w ddychwelyd i'w safle cywir cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, golchwyd llong o dan Draphont ac fe'i darganfuwyd yn ddiweddarach ar y tir yn Aberamffra, ochr yn ochr â'r wal. Cafodd y llong ddifrod sylweddol o ganlyniad. Hoffai'r Gwasanaeth ddiolch i staff yr harbwr am eu hymateb prydlon ac am fynychu'r digwyddiadau i sicrhau diogelwch y cyhoedd a chwsmeriaid, ac atal difrod pellach.

## 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| **Dyddiad:** | 21 Hydref 2025 |
| **Awdur:** | Harbwrfeistr |
| **Gwasanaeth:** | Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned |
| **Teitl:** | Diweddariad ar Faterion Gweithredol |

## 1. CEFNDIR

1.3 Rôl y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r harbwr, yn ogystal â derbyn sylwadau'r aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.4 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol sy'n ymwneud â'r harbwr, gan wahodd adborth neu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor.

## 2. ADRODD AR FATERION GWEITHREDOL

2.1 Cyflwynir y crynodeb isod o safbwynt perfformiad y gwasanaeth.

2.2 Mae amodau tywydd ffafriol wedi arwain at fwy o weithgarwch ar y dŵr, o gychod hwylio, cychod pŵer a mwy a mwy o badlfyrddau. Tra bod y gwasanaeth yn croesawu'r twf hwn, hoffem atgoffa morwyr a rhai sy'n defnyddio'r dŵr o bwysigrwydd cymryd rhagofalon diogelwch priodol. Mae gwisgo siacedi achub, defnyddio rhaffau a chario dulliau cyfathrebu dibynadwy (VHF/ffôn symudol) yn gallu achub bywydau. Mae'r adran eisoes wedi ymateb i sawl digwyddiad oedd yn ymwneud ag unigolion nad oeddent yn ymwybodol o'r peryglon a achosir gan dywydd garw a chyflwr y môr. Cynghorwn yn gryf y dylai holl ddefnyddwyr y dŵr baratoi'n ddigonol a gwybod beth yw'r amodau'n lleol cyn cychwyn allan.

2.3 Mae'n braf adrodd bod cychod sy'n ymweld yn parhau i ddewis harbwr Cyngor Gwynedd fel lle i angori. Trwy gydol y tymor fe deithiodd nifer o gychod rhwng ein harbyrau, ac rydym wedi derbyn adborth positif yn gyson ynghylch y cyfleusterau a ddarperir a phroffesiynoldeb staff yr harbyrau. Mae'n werth nodi bod Harbwr Abermaw wedi gweld cynnydd o 40% yn nifer y cychod sy'n ymweld ers y llynedd.

2.4 Mae'r gwasanaeth yn cynghori bod yn rhaid i bob cwsmer newydd sy'n gofyn am angorfa yn Harbwr Abermaw fynd i swyddfa'r harbwr a llenwi'r ffurflen angorfa angenrheidiol a thrafod manylion y cwch. Fodd bynnag, gofynnwn i gwsmeriaid sydd eisoes ar y llyfrau ddefnyddio'r system cofrestru angorfa ar-lein, a fydd ar gael o 1 Ebrill 2026. Ni fyddwn bellach yn derbyn ffurflenni angori papur ar gyfer cwsmeriaid sy'n dychwelyd - rhaid cwblhau pob adnewyddiad a thaliad gan ddefnyddio'r system ar-lein. Os bydd unrhyw anhawster wrth gwblhau'r broses ar-lein, dylai cwsmeriaid gysylltu â swyddfa'r harbwr am gymorth.

2.5 Mae cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr wedi cael ei ddefnyddio'n rheolaidd y tymor hwn ar ôl cael gwasanaeth llawn ar ddechrau'r flwyddyn.

2.6 Mae'r cerbyd 4x4 Morwrol wedi cael llawer o ddefnydd hefyd, fodd bynnag, mae ei gyflwr yn dirywio oherwydd natur heriol y gwaith a'r amgylcheddau heriol y mae'n gweithredu ynddynt.

2.7 Gosodwyd cawell a goleuadau newydd ar y 'Cerbyd Pob Tir' newydd yn ddiweddar. Golyga'r ychwanegiadau hyn ei fod yn llawer mwy effeithiol wrth ei ddefnyddio ar draws ein hardal weithredol, gan gefnogi tasgau fel casglu sbwriel, cludo angorfeydd ac eitemau mwy a gwella gweledEDD i'r cyhoedd wrth ymateb i ddigwyddiadau neu batrolio'r traeth yn ystod tymor yr haf.

2.8 Mae'r holl drelars a ddefnyddir gan staff yr harbwr wedi cael eu gwasanaethu gan yr Adran Fflyd i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal i safon uchel ac yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio.

2.9 Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn bowser a phibell olchi jet ar drelar, sy'n golygu bod modd glanhau ardaloedd lle nad oes cyflenwad dŵr ar gael yn effeithiol.

**a) <u>Materion Mordwyo</u>**

2.5 Ni fu unrhyw newidiadau i'r sianel fordwyo yn ystod cyfnod yr Haf. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol a chalonogol iawn gan gychod lleol a rhai sy'n ymweld ynglŷn â'r safleoedd newydd a threfn oleuo y cymhorthion ochr y Porthladd a Starbord, sydd wedi helpu defnyddwyr i fordwyo'n glir a diogel i mewn i'r harbwr.

2.5.1 Bydd Staff yr Harbwr yn parhau i fonitro symudiad y banciau tywod yn y sianel fordwyo gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cymhorthion ochr y Porthladd a Starbord.

2.5.2 Bydd Cymhorthion Mordwyo Rhif 2, Rhif 3, Rhif 10, yn ogystal â Bwi'r Sianel Fordwyo (Fairway) yn cael eu harchwilio gan gontractwr lleol maes o law.

2.5.3 **Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw rybudd i forwyr ar waith.**

2.5.4 Mae golau newydd wedi'i osod ar strwythur y South Cardinal ac mae'n gweithio fel y dylai.

2.5.5 Mae tywod sy'n cael ei chwythu gan y gwynt yn parhau i effeithio ar y sianel agosaf at wal yr harbwr, gan greu anawsterau i gychod sy'n dod i mewn neu'n gadael yr harbwr ar lanw isel. Gofynnir i forwyr gysylltu â swyddfa'r Harbwr cyn nesáu at wal yr Harbwr.

2.5.6 Mae sawl digwyddiad wedi'i gofnodi eto yr Haf hwn, lle roedd y cyfathrebu â chychod yn gyfyngedig naill ai am fod y morwyr ddim yn monitro eu radios VHF neu eu bod wedi methu â darparu eu manylion cyswllt. Atgoffir morwyr hefyd o'r angen i gadw radios VHF wedi'u tiwnio i Sianel 12 yn ystod eu harhosiad yn Harbwr Abermaw.

2.5.7 Cynghorir morwyr i gysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fordwyo a'r tywydd.

**b) <u>Materion penodol</u>**

2.6 Mae gwaith wedi dechrau ar y gwaith amddiffyn rhag llifogydd yng Ngerddi Cae Glas (Viaduct Gardens) yn dilyn yr egwyl tymhorol.

2.7 Mae'r gwaith i adnewyddu pontŵn yr harbwr yn mynd rhagddo'n dda ac mae disgwyl iddo gael ei ailosod ym mis Mawrth 2026.

**c) Cynnal a chadw**

2.8 Mae staff yr harbwr yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ac archwiliadau o'r harbwr. Mae eitemau sydd angen sylw brys yn cael eu trin yn brydlon, tra bod materion eraill yn cael eu hychwanegu at ein rhaglen waith dros y gaeaf.

2.9 Mae teiars ychwanegol wedi'u gosod ar hyd wal yr harbwr i ddarparu gwell amddiffyniad i gychod sy'n angori ar hyd ochr y wal .

3.0 Bydd y gwasanaeth yn darparu diweddariadau pellach ar y pontŵn wrth iddynt ddod ar gael. Mae'r pontŵn yn parhau i fod yn ased gwerthfawr, a dymunwn ddiolch i'r Cyngor Tref a phawb sy'n ymwneud â chefnogi'r prosiect.

3.1 Bydd arwyddion diogelwch newydd (prif ac eilaidd) yn cael eu gosod yn Fairbourne i wella gwybodaeth am ddiogelwch.

3.2 Mae staff yr harbwr yn parhau â'r broses o rifo bwiau angori i sicrhau bod modd adnabod angorfeydd cwsmeriaid yn hawdd, yn enwedig ar ôl i gychod newydd gyrraedd yr harbwr.

3.7 Gan weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr y compownd, mae staff yr harbwr wedi bod yn clirio eitemau dros ben a malurion o'r compownd – aethpwyd â sawl llwyth oddi yno ar drelar.

**d) Digwyddiadau**

3.8 Arweiniodd y tywydd gwael at ganslo 'Ride Out' Clwb Jet Ski Bae Colwyn 2025. Fodd bynnag, aeth digwyddiad traeth ym Morfa Bychan yn ei flaen yn llwyddiannus, gan godi miloedd o bunnoedd ar gyfer elusennau lleol. Mae'r gwasanaeth yn diolch i'r trefnwyr am eu gwaith caled a'u hymdrechion.

3.9 Ras 10km: Digwyddiad arall a werthodd allan ar gyfer y ras 10km ar draws y bont reilffordd ac ar hyd aber afon Mawddach.

4.0 Bermo Fest: Roedd y penwythnos yn gymylog gan olygu presenoldeb fymryn yn is eleni, ond roedd y digwyddiad yn dal yn un llwyddiannus iawn ac wedi'i drefnu'n dda.

4.1 Gŵyl Ddŵr: Er gwaethaf amodau heriol, aeth y prif atyniad, y ras rafft flynyddol, yn ei flaen. Denodd y digwyddiad dorf fawr a bu'n ddiwrnod gwych i bawb a gymerodd ran.

4.2 Gŵyl Fwyd: Mae'r ŵyl hon yn parhau i dyfu o flwyddyn i flwyddyn, gyda 32 o stondinau yn cael eu harddangos eleni, yn cynnig amrywiaeth eang o gynnyrch. Daeth nifer i ymweld, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

4.3 Sea2Sky: Nawr yn ei ail flwyddyn, roedd y digwyddiad yn cynnwys dwy ras (25km a 50km) a denodd gannoedd o gystadleuwyr.

4.4 Moto X: Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 18 ac 19 Hydref, wythnos cyn gwyliau hanner tymor yr Hydref.

4.5 Hurly Burly: Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 10 Hydref.

4.6 Noson Tân Gwyllt a Choelcerth: Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 1 Tachwedd.

## 3. ARGYMHELLION:

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad hwn.